# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd drwy fideo gynadledda ddydd Iau 14 Hydref 2021 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Martyn Holland, Bob Murray, Paul Penlington, Arwel Roberts (Cadeirydd), Peter Scott a David Williams.

**Cadeirydd Grŵp Tasg a Gorffen yr Aelodau –** y Cynghorydd Christine Marston

**Aelodau'r Cabinet –** Y Cynghorwyr Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth) Huw Hilditch-Roberts, (Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd) Tony Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau) a Mark Young (Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel).

**Arsylwyr –** y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (GB), Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS), Swyddog Comisiynu a Chynllunio (JA), Cydlynydd Craffu (RE) a Swyddogion Pwyllgorau (KEJ ac RTJ [Gwe-ddarlledwr)

**Siaradwr Cyhoeddus –** Brenda Jones (rhiant defnyddiwr gwasanaeth Meifod) ar gyfer eitem 5.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Hugh Irving (Is-gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Pete Prendergast ac Andrew Thomas ynghyd â Phennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG) a Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cleientiaid (KN).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Cynghorydd Pete Prendergast wedi gallu mynychu'r cyfarfod ond ei fod wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i'w darllen yn ei absenoldeb:

"Eitem 5, Menter Meifod – rwyf i fy hun yn gadeirydd grŵp cymunedol sy'n helpu pobl o bob cefndir i ddysgu sgiliau newydd drwy gynllun prentisiaeth nid yn unig er mwyn gwella sgiliau pobl ond i roi hyder iddyn nhw yn eu galluoedd eu hunain a hefyd efallai arwain at y posibilrwydd o waith. Mae Meifod mor bwysig i'r bobl sy'n mynychu, ac yn cynnig cyfleoedd tebyg i'r grŵp yr ydw i'n ei gadeirio. Rwy'n annog yr holl gynghorwyr i gefnogi parhad y cynllun teilwng hwn, a bod y preswylwyr sy'n defnyddio'r cyfleuster hyfforddi'n cael pob cyfle i symud ymlaen yn eu bywydau ac o bosib i ddod o hyd i waith. Rydw'i hefyd yn meddwl y byddai archwilio cyfleoedd drwy Gyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am waith /sgiliau gwaith yn y dyfodol yn cadarnhau'r gwaith gwych y mae Meifod yn ei

wneud o ran galluogi pobl i  wneud cynnydd yn eu bywydau a thrwy hynny gynnig manteision i'r ddau sefydliad drwy'r gallu i gyflogi staff ymroddedig a hyfforddedig. Mae angen pendant am grwpiau fel Meifod i roi cyfle i bobl ennill sgiliau, rhywbeth sydd mor bwysig i bobl o bob cefndir y dyddiau hyn i ddod o hyd i ryw fath o gyflogaeth a gwella eu bywydau a bywydau eu teuluoedd.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2021.

**Materion yn Codi –**

Eitem 5 – Adroddiadau Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-20 a 2020-21 – tynnodd y Cadeirydd sylw at faterion yn codi o'r cofnodion a chadarnhaodd y Swyddog Cymorth Craffu bod rhagor o wybodaeth ar gefnogaeth ar gyfer gofalwyr ifanc ynghyd ag adroddiad er gwybodaeth am Ofal Iechyd Cefndy wedi'u cynnwys ym Mriff Gwybodaeth y Pwyllgor a ddosbarthwyd i'r aelodau'r wythnos flaenorol.  Roedd awgrym am restr o dermau yn yr Adroddiad Blynyddol hefyd wedi'i dderbyn.  Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ddiweddariad ar ddatblygiad Bwthyn y Ddôl gan ddweud y byddai'n angenrheidiol ail-dendro am gontractwr i adeiladu'r cyfleuster newydd gan fod y cwmni a enillodd y contract gwreiddiol wedi mynd i'r wal.  Oherwydd yr effaith ar gyfraddau amser a chyllid, cafwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi parhau i gefnogi'r prosiect wrth iddo symud yn ei flaen.  Ni fydd yn bosibl cadarnhau'r amserlen ar gyfer y datblygiad hyd nes y bydd y broses dendro wedi'i chwblhau.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.*

## 5 CYNNYRCH COED MEIFOD

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon, yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a'r Swyddog Comisiynu a Chynllunio ynghyd â'r Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Llesiant ac Annibyniaeth gan fod yr eitem hon yn dod o fewn ei maes portffolio.  Estynnwyd croeso cynnes hefyd i Brenda Jones, rhiant un o ddefnyddwyr gwasanaethau Meifod a fyddai hefyd yn annerch y Pwyllgor.

Roedd yr adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cleientiaid a'r Swyddog Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhoi manylion am

ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori a fyddai'n hysbysu gweithrediad y gwasanaeth ym Meifod yn y dyfodol a'r opsiynau posibl ar ei gyfer, yn cynnwys argymhelliad Aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen bod y Pwyllgor yn llunio argymhellion i'r Cabinet mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth y dyfodol.

Rhoddodd y Cynghorydd Christine Marston, Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Aelodau, adroddiad ar drafodaethau'r Grŵp ynghylch y wybodaeth fanwl a'r opsiynau a gyflwynwyd gan y swyddogion yn eu hadroddiad. Mae'r grŵp yn argymell yn gryf bod y cyfleuster yn cael ei gadw a'i fod yn ailagor cyn gynted â phosibl er y gwerthfawrogir bod angen sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer cleientiaid – yn amlwg mae adolygiadau wedi'u cynnal o'r peiriannau a ddefnyddir o ystyried y pryderon diogelwch a godwyd yn y cyswllt hwnnw. Roedd y Grŵp hefyd yn ystyried y dylai swyddogion edrych ar weithio gyda menter gymdeithasol a/neu'r sector preifat i ddarparu'r gwasanaeth er mwyn diogelu ei barhad o ystyried yr heriau ariannol a wynebir a bod angen bod yn fwy creadigol yn y modd y rheolir y gwasanaeth. Roedd y grŵp yn ystyried bod Meifod yn darparu gwasanaeth da sydd yn hollbwysig i'r rhai sy'n ei ddefnyddio ac yn ymgysylltu ag o i gynhyrchu nwyddau adnabyddus a safonol sy'n cael eu prynu yn lleol, ac y byddai ei golli yn drueni mawr.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau at y wybodaeth fanwl a gafwyd a diolchodd i'r Grŵp Tasg a Gorffen a'r Pwyllgor Craffu am eu gwaith ac am graffu ar yr adroddiad. Mae Meifod yn wasanaeth sy'n cael ei groesawu a'i werthfawrogi gan y rhai sy'n ei ddefnyddio a'u teuluoedd, y staff sy'n gweithio yno, y gymuned leol a'r rhai sy'n atgyfeirio pobl yno. Wedi dweud hynny mae angen ystyried hyfywedd pob gwasanaeth yn ogystal â chyfleoedd i foderneiddio â diwallu anghenion pobl. Caeodd Meifod ddiwedd Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 a'r cyfyngiadau perthnasol ond oherwydd bod y cyfyngiadau hyn yn cael eu llacio roedd yn adeg priodol i ystyried dyfodol y gwasanaeth. Am y rheswm hwnnw cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu dros gyfnod o wythnosau i geisio barn defnyddwyr y gwasanaeth, eu teuluoedd/gofalwyr a staff y gwasanaeth ynghyd â rhanddeiliaid eraill. Er ei fod yn amlwg yn wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi, doedd rhai pobl ddim isio mynd yn ôl i Meifod a byddai'n well ganddynt ystyried cyfleoedd eraill a gweithgareddau eraill felly mae'n bwysig ystyried gwahaniaethau barn. Wedi ystyried nifer o opsiynau a gyflwynwyd gan y swyddogion, roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Aelodau wedi argymell y dylid ailagor Meifod fel gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan y Cyngor ac y dylid cychwyn ar y gwaith o ddod o hyd i sefydliad allanol neu fenter gymdeithasol i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau o'r adeilad Meifod presennol, er ei bod yn bosibl nad gweithgareddau gwaith coed fyddai'r rhain, er mwyn archwilio cynaladwyedd hirdymor Meifod. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod swyddogion y gwbl gytûn ac yn cefnogi argymhelliad y grŵp Tasg a Gorffen ac y byddent yn croesawu cwestiynau gan y Pwyllgor.

Yn ystod trafodaeth hir craffodd yr aelodau ar yr adroddiad mewn manylder gan fanteisio ar y cyfle i godi a thrafod amrywiol agweddau ar yr adroddiad gyda'r swyddogion. Talodd yr Aelodau deyrnged i Meifod a'r gwasanaeth gwerthfawr y mae'n ei ddarparu ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig ag o, gan gydnabod yr effaith arwyddocaol ar les unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r cyfleoedd y mae'n eu rhoi iddynt . Roedd pob aelod yn cytuno y dylai'r Cyngor gymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol a sicrhau ei fod yn dal i

gael ei ddarparu er budd defnyddwyr gwasanaethau a’u teuluoedd. Felly, tra bo cefnogaeth i argymhelliad y Grŵp Tasg a Gorffen y dylid ailagor y gwasanaeth ac archwilio cyfleoedd i sicrhau ei hyfywedd yn y dyfodol, roedd y Pwyllgor yn teimlo y gellid cryfhau'r argymhelliad ymhellach yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol i sicrhau bod Meifod yn cael ei ailagor cyn gynted a phosibl.

Roedd y prif faterion a drafodwyd yn cynnwys trefniadau prydlesu; rheolaeth gwaith trwsio a chynnal a chadw’r adeilad a’r peiriannau a phryderon am eu dirywiad; y pwysau ariannol sy’n wynebu’r gwasanaeth; dargyfeiriad posib y gwasanaeth; y rhesymau y tu ôl i'r gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i’r gwasanaeth; yr ymarfer ymgysylltu a chydymffurfiaeth â pholisi iaith Gymraeg y Cyngor. Holwyd y swyddogion hefyd am fanylion yr adroddiad a'r rhesymau y tu ôl i'r amrywiol opsiynau a gynigiwyd. Roedd y prif drafodaethau’n canolbwyntio ar y canlynol -

- eglurwyd bod yr adeilad presennol ar brydles ddeng mlynedd tan 30 Medi 2025; mae’r adeilad mewn cyflwr gwael ac er bod gwaith cynnal a chadw sylfaenol wedi'i wneud ar ôl i'r adeilad gau roedd yn anorfod y byddai’r adeilad a'r peiriannau’n dirywio oherwydd diffyg defnydd am gyfnod sylweddol, ac mae angen hefyd uwchraddio’r system wresogi oherwydd pryderon ynglŷn ag ailgylchu'r aer.
- nodwyd costau uchel rhedeg yr adeilad o ran costau gwresogi/trydan yn ychwanegol at y rhent a chostau trwsio a chynnal a chadw ac roedd peth trafodaeth ynghylch a ddylai Meifod aros yn yr adeilad presennol yn yr hirdymor neu a fyddai'n well symud y gwasanaeth i adeilad mwy modern o eiddo'r Cyngor yng ngoleuni'r costau cysylltiedig â'r adeilad presennol a'r cyfyngiadau o ran unrhyw addasiadau i arbed ynni ac ati.
- o ran dargyfeirio posibl a darpariaeth cyfleoedd gwaith/gweithgareddau amgen, gellid archwilio amrywiaeth o gynnyrch arall a bydd angen gwneud rhagor o waith gyda defnyddwyr gwasanaeth i ofyn eu barn yn ogystal â gyda sefydliadau allanol/mentrau cymdeithasol eraill o ran y cyfleoedd sydd ar gael.
  Roedd y Cynghorydd Bob Murray yn arbennig yn awyddus bod y posibilrwydd o weithio gyda'r GIG yn cael ei archwilio, o bosibl cynhyrchu gorchuddion wyneb ac ati.
- tra cydnabuwyd y cynnydd ym mhris coed, awgrymodd yr aelodau y gellid caffael coed yn lleol a chytunodd y swyddogion y dylid edrych ar y posibilrwydd hwnnw.
- roedd gweithwyr cymdeithasol yn fwy tebygol o gyfeirio pobl at weithgareddau a phrosiectau cymunedol anstatudol i gynyddu nifer yr unigolion mewn swyddi â thâl neu gyfleoedd gwirfoddoli er y cydnabuwyd nad dyma'r ymdriniaeth gywir i bawb a bod ar rai unigolion angen y cyfleoedd y mae Meifod yn eu darparu.
- Rhoddodd y Cynghorydd Bobby Feeley rywfaint o gefndir i Feifod a sefydlwyd yn 1972 a rhoddodd fwy o wybodaeth am ei nodau a’i amcanion ynghyd â’i lwyddiant dros y blynyddoedd.
  Fel yr Aelod Arweiniol dros y gwasanaeth dywedodd na fyddai’n cymeradwyo cau Meifod ond roedd yn cytuno bod angen gwneud newidiadau er mwyn gwella’r cynnig ac y dylid ceisio manteisio ar gyfleoedd i weithio ar y cyd dros y pedair blynedd sydd ar ôl o les yr adeilad er mwyn sicrhau menter economaidd gynaliadwy a’r posibilrwydd o ddargyfeirio gwasanaethau yn cynnwys gweithio gyda’r GIG ac ailgylchu. Roedd yn awyddus i’r gofynion iechyd a diogelwch gael sylw er mwyn i Meifod allu ailagor cyn gynted â phosibl

- cododd y Cynghorydd Rhys Thomas gwestiynau am y diffyg buddsoddiad yn y gofynion trwsio/cynnal a chadw cysylltiedig â'r peiriannau a'r system wresogi a holodd hefyd a fyddai'r stoc o goed sydd gan Feifod ar hyn o bryd yn golygu y byddai modd i'r gwaith coed barhau - roedd o a'r Cynghorydd Emrys Wynne yn awyddus bod cynnyrch coed yn dal i gael eu gwneud yno.
  Dywedodd y Swyddogion y byddent yn edrych ar y materion trwsio/cynnal a chadw a stoc o goed ac yn adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Thomas . Ers llunio'r adroddiad roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cronfa Adferiad Gofal Cymdeithasol newydd ac roedd gobaith y byddai modd cael rhai o'r costau trwsio yn ôl o'r gronfa honno.
- cadarnhawyd mai argymhelliad Grŵp Tasg a Gorffen yr Aelodau, a gefnogwyd gan yr Aelodau, oedd defnyddio'r amser sydd ar ôl cyn i brydles yr adeilad ddod i ben i weithio gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd i weld pa ddiddordebau sydd ganddynt a hefyd edrych ar y cyfleoedd a allent fod ar gael drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill.
  Mae sefydliadau eraill y gallu dod o hyd i ffynonellau o gyllid (nad ydynt ar gael i'r awdurdod lleol) er mwyn buddsoddi arian mewn gwasanaethau a chyfleoedd newydd - mae angen archwilio'r opsiynau hyn i gyd.
- rhoddodd swyddogion ragor o fanylion am y rhesymau y tu ôl i'r amrywiad mewn costau rhwng gwahanol wasanaethau sydd, yn achos Meifod yn cynnwys rhent uchel a chostau eraill cysylltiedig â'r adeilad, a hefyd mae ar gyfran uchel o unigolion angen cefnogaeth un i un, felly roedd yn anodd cymharu tebyg â thebyg oherwydd bod gwahanol wasanaethau'n darparu gweithgareddau gwahanol.
- y rheswm dros y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynychu Meifod a diffyg cyfeirio at y gwasanaeth yw cyflwyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a'r ymdriniaeth seiliedig ar asedau a ddefnyddiwyd i edrych ar ba asedau sydd gan unigolyn eu hunain neu sydd yn eu cymunedau, sydd wedi arwain at gyfeirio mwy o bobl at weithgareddau a gwasanaethau eraill yn y gymuned, ac yn sgil hynny mae pob gwasanaeth statudol wedi cael llai o atgyfeiriadau.
  Roedd yr ymdriniaeth yn gweithio i rai unigolion ond cydnabuwyd y bydd ar rai unigolion angen gwasanaeth statudol.
- roedd y datganiad yn ymwneud â'r newid democrataidd yn bwysig gan fod yr unigolion hynny a gyfeiriwyd at Feifod yn dueddol o fod yn rhai ag anghenion mwy cymhleth ac mae angen sicrhau y gall y gwasanaeth ymateb i'r anghenion hynny.
- gwneir atgyfeiriadau i'r gwasanaeth ar ôl asesiad gan y Tîm Anableddau Cymhleth sy'n cynnwys ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
- y pwynt a wnaed mewn perthynas â'r datganiad "dydi'r cyngor ddim yn bodoli i gyflenwi meinciau" oedd bod Meifod yn bodoli i ddarparu gwasanaeth a gweithgareddau seiliedig ar waith i bobl ac er bod gwneud elw yn rhywbeth i'w groesawu, nid dyma'r brif flaenoriaeth.
- cynhaliwyd digwyddiad 'Cyfarfod y Prynwr' ym mis Mawrth 2020 a oedd yn ymarfer archwilio i edrych ar wasanaethau sy'n cynnig cyfleoedd gwaith ac i weld a oedd yna unrhyw bartneriaid neu randdeiliaid â diddordeb ym Meifod. Fodd bynnag nid oedd y gwaith hwnnw wedi cael ei symud yn ei flaen oherwydd Covid-19. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i edrych ar opsiynau eraill yn y dyfodol yna bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach.
- Rhoddodd y Cynghorydd Meirick Davies hefyd rywfaint o gefndir i Feifod a'i adleoliad o Henllan i Ddinbych.

Mewn ymateb i gwestiynau cadarnhaodd y swyddogion bod dogfennau ar gyfer yr ymarfer ymgysylltu wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog ac nad yw tarddiad yr enw Meifod yn hysbys. Cytunodd swyddogion y byddent yn darparu rhagor o fanylion ar gostau darparu'r gwasanaeth yn cynnwys y costau blynyddol gros cyn y pandemig i'w cymharu â'r gost net flynyddol.

- y camau nesaf fydd i'r Pwyllgor wneud argymhelliad i'r Cabinet ar 23 Tachwedd 2021 ac yn amodol ar y penderfyniad hwnnw, bydd gwaith yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer ailagor cyn gynted â phosib.

Ar y pwynt hwn gwahoddodd y Cadeirydd Mrs. Brenda Jones, y mae ganddi fab sy'n defnyddio'r gwasanaeth ym Meifod, i annerch y Pwyllgor.

Eglurodd Mrs. Jones ei bod yn cynrychioli ei theulu ei hun a theuluoedd eraill y mae'r sefyllfa bresennol wedi effeithio arnynt. Eglurodd wrth y Pwyllgor beth yw ymgysylltiad ei mab â Meifod a rhoddodd gyfrif emosiynol o'r gwasanaeth gwerthfawr y mae Meifod yn ei ddarparu gan wneud apêl angerddol am i Meifod gael ei ailagor a pharhau ar ei ffurf bresennol. Amlygodd Mrs. Jones bryderon am natur a chymhwysedd yr ymarferion ymgysylltu ac opsiynau posibl ar gyfer dyfodol y gwasanaeth. Tynnodd sylw hefyd at faterion yn yr adroddiad, yn cynnwys diffyg gweithgareddau addas yn y gymuned, ac roedd y teimlo y dylid gwneud mwy i farchnata Meifod gydag ysgolion lleol a chymryd lleoliadau o'r tu allan i'r sir a fyddai'n cyfrannu'n ariannol. Roedd hefyd yn credu bod unigolion wedi gadael am nad oedd y gwasanaeth yno bellach ond y byddent yn dychwelyd unwaith y byddai'n ailagor. Tynnwyd sylw at y diffyg buddsoddiad yn y cyfleuster dros amser a'r sylwadau yn yr adroddiad ymgysylltu a baratowyd gan Wasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru a'u barn nad oedd yr ymarfer ymgysylltu wedi rhoi digon o gyfle i'r rhan fwyaf o bobl sy'n mynychu Meifod ymateb. Yn olaf cyfeiriwyd at yr wrth-ddadl yr oedd Mrs Jones wedi'i hanfon ar e-bost i aelodau'r Pwyllgor ac roedd yn mawr obeithio y byddai'r Pwyllgor yn dal i weithredu Meifod ar ei ffurf bresennol.

Diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau eraill i Mrs Jones am siarad â'r Pwyllgor a rhoi mewnwelediad gwerthfawr i effaith y gwasanaeth. Cadarnhaodd y Cadeirydd farn gyffredinol yn y cyfarfod y dylid diogelu a chadw Meifod at y dyfodol ac y dylid gwneud buddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth.

Fel yr Aelod Cabinet Arweiniol â chyfrifoldeb dros y maes gwasanaeth, cadarnhaodd y Cynghorydd Bobby Feeley'r neges glir ar draws bob grŵp gwleidyddol y dylid cadw Meifod ar agor a dywedodd ei bod wedi'i chalonogi heddiw o glywed cwestiynau a chyfraniadau'r aelodau ynghyd â'r amrywiol syniadau ar gyfer y gwasanaeth a sut y gellid ei ehangu a'i wella. Er gwaethaf y sylwadau a wnaed am ddiffygion yr ymarfer ymgysylltu neu'r adroddiad, argymhelliad y Grŵp Tasg a Gorffen oedd y dylid cadw Meifod ar agor ac archwilio cyfleoedd dros y pedair blynedd nesaf i symud ymlaen a moderneiddio a gwella'r gwasanaeth. Dywedodd y Cynghorydd Feeley ei bod yn edrych ymlaen at ddyfodol optimistaidd ar gyfer Meifod a diolchodd i'r aelodau am ymateb i'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed.

Trafododd y Pwyllgor yr argymhellion yn yr adroddiad a chytunwyd y dylid ail eirio'r argymhellion cyn eu cyflwyno i'r Cabinet i gynnwys yr angen i ailagor Meifod cyn

gynted â phosibl ynghyd â sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor.

Fe wnaeth y Pwyllgor –

***BENDERFYNU*** *ar ôl ystyried y materion sy'n wynebu Meifod, adborth y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymarfer ymgysylltu, y manteision a'r anfanteision a'r risgiau cysylltiedig â'r opsiynau posibl yn yr adroddiad, ynghyd â'r deilliannau a'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen, y dylid argymell i'r Cabinet*

*(a) bod Meifod yn cael ei ailagor cyn gynted a phosib fel gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan y Cyngor yn yr adeilad presennol, gyda buddsoddiad ychwanegol yn cael ei wneud yn y gwasanaeth a ddarperir yno.*

*(b) bod gwaith yn cychwyn i archwilio pob cyfle am ffyrdd newydd o weithio i wella a datblygu Meifod, yn cynnwys y posibilrwydd o ddod o hyd i sefydliad allanol/menter gymdeithasol i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau yn yr adeilad Meifod presennol (nid oes angen i'r rhain o reidrwydd fod yn weithgareddau gwaith coed) gyda'r nod o archwilio a sicrhau cynaladwyedd hirdymor Meifod, a*

*(c) bod darpariaeth gwasanaeth y dyfodol yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth bresennol a Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor.*

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod ac am eu cyfraniad.

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â materion perthnasol.

Bu trafodaeth ynghylch y materion canlynol -

- nodwyd bod yr adroddiad ar y System Rheoli Perthnasoedd Cwsmeriaid a oedd wedi'i drefnu ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 25 Tachwedd wedi'i gadarnhau a ail-gadarnhaodd yr aelodau'r pedair eitem a restrwyd yn y rhaglen waith ar gyfer y cyfarfod hwnnw.
- cafodd y pedair eitem a restrwyd yn rhaglen waith y cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer 27 Ionawr hefyd eu nodi a'u hail-gadarnhau
- anogwyd aelodau i gyflwyno unrhyw ffurflenni cynnig testunau ar gyfer craffu cyn cyfarfod nesaf Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar 25 Tachwedd.
- cyfeiriwyd at yr adroddiadau gwybodaeth ym Mriff Gwybodaeth y Pwyllgor a ddosbarthwyd eisoes yn ymwneud ag Adroddiad Interim Cefndy 2021-2022 a'r Diweddariad ar Berfformiad y Cynllun Corfforaethol
  Ebrill – Mehefin 2021. Byddai'r ail adroddiad o gymorth i'r Pwyllgor wrth graffu ar Chwarter 2 Cynllun Corfforaethol 2021/22 yn ei gyfarfod nesaf ar 25 Tachwedd.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr pwyllgorau.

Canmolodd y Prif Weithredwr safon uchel y craffu a'r trafod yn ystod y cyfarfod ac fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Pwyllgor Craffu Perfformiad dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at fynychu cyfarfodydd y dyfodol. Ar gais y Cadeirydd rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar drafodaethau parthed cynllunio olyniaeth y swyddi Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Parth Cyhoeddus a fyddai'n cynnwys adolygu strwythur yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm